

DIGIDEIDDIO: Y FFORDD YMLAEN



Dyddiad y
Project Ionawr
2018 -Mai
2019

Teitl Gweithiol: Gwneud defnydd gorau o'r
archifau
Thema Arweiniol: Manteisio ar dechnoleg
ddigidol

Bu'r project hwn yn dilyn taith Cymdeithas Hanes y Bont-faen i
ddod o hyd i lwyfan addas ar-lein i gadw ei chasgliad o archifau



DIGIDEIDDIO: Y FFORDD YMLAEN

TEITL GWEITHIOL: GWNEUD DEFNYDD GORAU O'R ARCHIFAU
THEMA ARWEINIOL:


CONTENTS

CEFNDIR	3
AM Y PROJECT	3
Amcanion y Project	3
Y Broses	4
Deall platfformau cymdeithasau hanes eraill	4
Dewis platfform	4
Pobl yr ymgysylltwyd â nhw	4
Digwyddiadau	4
Ymchwil Pwnc	5
Addasrwydd y systemau ar gyfer chwilio drwy destun a PDF	5
Archifau ar-lein	5
Hawlfraint a diogelwch	6
Heriau'r Project	6
Priodoldeb y casgliadau eraill	6
Cost	6
CANLYNIADAU'R PROJECT	6
Y Canlyniadau	6
Gwersi a Ddysgwyd gan y Project	7
Amrywiadau mewn gallu a chwmpas cymdeithasau hanes	7
Dichonolrwydd y system	7
Lledaenu Gwybodaeth	7
Y Camau Nesaf	8
EISIAU GWYBOD MWY?	8
Gwefan y Project	8
Cysylltiadau Defnyddiol	9
Cymunedau Gwledig Creadigol	9
Cymdeithas Hanes y Bont-faen	9
Diolch i	9
ATODIAD A	0
Gwariant terfynol y project	0

Mae'r project hwn wedi derbyn cymorth gan Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC); Menter Adfywio Gwledig Cyngor Bro Morgannwg. Yn syml, rydym yn cynnal llw o brojectau gwych i gefnogi creadigrwydd a menter ym Mro Morgannwg wledig.

Mae'r project hwn hefyd wedi derbyn cyllid gan Gyngor Bro Morgannwg a thrwy Gynllun Datblygu Cymru Wledig 2014-2020 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop dros Ddatblygu Gwledig. Caiff y rhan hon o'r gronfa ei hadnabod fel 'LEADER'.

Mae'r dull LEADER o adnewyddu yn parhau wrth wraidd gwaith dyddiol Cymunedau Creadigol Gwledig. Mae LEADER yn acronym Ffrengig (Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale) sy'n golygu 'cysylltiadau rhwng camau gweithredu ar gyfer datblygu'r economi wledig'. Mae'n ddull o harneisio gwybodaeth leol i alluogi ymagwedd gymunedol "o'r gwaelod i'r brig" tuag at ddatblygu gwledig ac mae'n rhaglen sydd ar waith ledled Ewrop. Mae saith egwyddor sylfaenol i'r cynllun LEADER:



Dylai projectau LEADER anelu at dreialu datrysiadau newydd i heriau sy'n bodoli'n barod, bod yn arloesol a chydweithredol, yn rhagweithiol wrth werthuso a rhannu'r gwersi a gaiff eu dysgu, a chydabod na fydd popeth yn llwyddo.

Dylech fod yn ymwybodol y gall unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chyllido, gan gynnwys yr adroddiad hwn, gael ei rannu yn eang a'i gyhoeddi ar wefannau Cyngor Bro Morgannwg, gwefannau'r Llywodraeth a rhai Ewropeaidd. Bydd CGC ond yn defnyddio data personol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) newydd.

I ddsygu rhagor am Gymunedau Gwledig , ewch i:

www.creativeruralcommunities.co.uk

CEFNDIR

O fis Ionawr 2018 mae archif digidol Cymdeithas Hanes y Bont-faen wedi ei leoli ar gyfrifiadur Windows ac wedi'i strwythuro gan ddefnyddio system ffeiliau Windows. Mae'n cynnwys 15.6 GB o ffeiliau data mewn 26 o ffolderi a 275 i is-ffolderi oedd yn cynnwys 5044 o ffeiliau delwedd (JPEG), 2109 o ffeiliau PDF (y gallwch chwilio mewn rhai ffeiliau testun) a 813 o ffeiliau DOC/DOCX (y gallwch chwilio drwy'r testun cyfan). Disgwylir i faint yr archif ddyblu yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Trefnir ffeiliau digidol mewn strwythur ffolderi sy'n adlewyrchu y casgliad o gofnodion copi caled â rhwymwyr modrwyau sydd wedi mynd drwy brawf yr amser ac a leolir yn ystafell hanes lleol y Bont-faen. Mae hyn yn gynllun dosbarthu bras sy'n addas ar gyfer pori gan ymchwilyr. Mae taenlen Excel ar wahân yn cynnig gwybodaeth (metadata) wedi ei chofnodi ar gyfer pob ffeil. Yn yr archif, caiff pob math o ffeil ei drin yn yr un ffordd, fel cyrchiadau syml ac mae gan bob un rif cyrchu unigryw ar ddechrau enw'r ffeil.

Chwilio am wybodaeth

Gellir pori'r archif digidol yn rhwydd er mwyn dod o hyd i ddelweddau o ddiddordeb. Fodd bynnag, ar gyfer chwilio manylach, er enghraifft ar gyfer enw teuluol, bydd angen chwilio testun. Yn y system seiliedig ar Windows, mae'n bosib chwilio am destun mewn ffeiliau ond mae'r canlyniadau yn gyfyngedig gan faint bach y wybodaeth y gellir ei chynnwys yn enw'r ffeil.

Hefyd, mae'n bosibl chwilio yn y ffeil metadata - ond nid ydym ni wedi mabwysiadu dull 'allweddair' (mae'r ffeil yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer rhoddwyr a manylion technegol digideiddio, ond dim llawer mwy yn ymarferol). Ni fabwysiadwyd dull 'allweddair' oherwydd yr ymdrech sydd ei hangen i sicrhau cyfanrwydd a chywirdeb. Dylid nodi hefyd nad oes modd awtomatig o arddangos metadata ar gyfer eitem wedi'i dethol.

Yn drydydd, mae gan Windows File Explorer y cyfleuster i chwilio am destun o fewn sawl math o ffeiliau dogfen - yn ein hachos ni, Doc, Docx a rhai ffeiliau PDF. Mae hon yn elfen hanfodol o'r system. Gall File Explorer gynnal mynegai o'r cynnwys yn awtomataidd, ar gyfer cynnwys yr holl ffeiliau yn yr archif. Bydd chwilio'n creu rhestr o'r ffeiliau sy'n cynnwys y testun dan sylw yn gyflym iawn - ar yr ymchwilydd mae'r cyfrifoldeb wedyn i agor ffeil a allai fod o ddiddordeb ac yna, os oes angen, gwneud rhagor o waith ymchwil yn y rhaglen darllen ffeiliau.

AM Y PROJECT

Amcanion y Project

Dymuna Cymdeithas Hanes y Bont-faen wneud ei harchif cyfredol seiliedig ar Windows yn hygyrch yn ehangach i ymchwilyr, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, ac felly hoffent roi cyfleuster seiliedig ar y we ar waith fydd yn debyg i swyddogaeth y system seiliedig ar Gyfrifiadur Personol a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Prif amcan y project yw creu archif ar-lein y gellid ei gyrchu yn rhan o wefan bresennol CHyB neu drwy ddolen iddi <http://www.cowbridgehistorysociety.org>

Roedd y gofynion fel a ganlyn:

- Dylai strwythur data tebyg fod ar gael, a chyfleusterau chwilio tebyg fel ar y system sy'n seiliedig ar Windows, gan gynnwys y gallu i chwilio am destun yng nghynnwys y ffeiliau ac yn y

metadata. Ni fyddai angen chwilio am destun yn enwau'r ffeiliau os yw'r testun yn y metadata hefyd.

- Y gallu i arddangos data ochr yn ochr ag eitemau wedi eu dethol.
- Cyfleuster ar gyfer defnyddwyr iddynt gael copïau o eitemau ac o bosibl talu amdanynt drwy'r wefan.
- Rheolaeth briodol, yn enwedig o ran hawlfraint, dros yr hyn a lawrlwythir gan ddefnyddwyr.

Ychwanegwyd llawer o bwyntiau eraill i'w hystyried megis:

- A fyddai'r archif ar y we yn ddarostyngedig i'r un presennol.
- Costau parhaus blynyddol.
- Rheoli'r archifau ar-lein - megis ychwanegu eitemau newydd, ffolderi, a'r sgiliau sydd eu hangen (e.e. gwirfoddolwyr sy'n deall cyfrifiaduron yn gyffredinol)
- Sut byddant yn diogelu eu buddsoddiad.

Y Broses

Deall platfformau cymdeithasau hanes eraill

Dechreuodd CHyB drwy chwilio gyda Google, a thrwy ddulliau eraill er mwyn nodi cymdeithasau a sefydliadau eraill sy'n wynebu neu sydd wedi wynebu heriau "hygyrchedd" tebyg i'n heriau ni.

Edrychodd y Gymdeithas hefyd ar waith sefydliadau masnachol sy'n cynnig sefydlu a rheoli gwefannau cymdeithasau hanes eraill sy'n cynnwys archifau.

Dewis platfform

Daeth y grŵp i'r casgliad y byddai'n cael cynnydd gorau drwy wefan bwrpasol neu'n rhan o'r un sydd eisoes ganddynt. Ar ôl edrych ar nifer o wefannau cymdeithasau tebyg iddynt, daeth yn amlwg mai hwn oedd y dull arferol.

Pobl yr ymgysylltwyd â nhw

Cymerodd nifer o bobl ran wrth i ni benderfynu pa mor briodol yw gwefannau a nodi p'un a allent fodloni gofynion y defnyddwyr:

- Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf - cyfarfod wyneb yn wyneb (swyddog CGC)
- Safleoedd Cymunedol - cyfathrebu dros y ffôn a thrwy e-byst (aelodau CHyB)
- Cymunedau Pobl Cymru - cyfarfodydd wyneb yn wyneb (aelodau CHyB)
- Cymdeithasau hanes eraill - cyswllt dilynol drwy wefannau a galwadau ffôn (CGC a CHyB)

Casgliad Gwerin Cymru yw gwefan a ariennir gan Lywodraeth Cymru i'r cyhoedd lanlwytho ffotograffau, recordiadau a dogfennau sy'n cynnwys straeon am Gymru a'i phobl. Gallant hefyd gynnig cymorth a hyfforddiant i'r rheiny sydd â diddordeb mewn digideiddio casgliadau mawr a phrojectau cymunedol.

Digwyddiadau

Cynigiwyd digwyddiad, yn gwahodd cymdeithasau hanes lleol o ledled y Fro. Gwnaed cysylltiad cychwynnol gyda chymdeithasau yn:

- Y Rhws a'r Rhanbarth
- Llanilltud Fawr
- Ystafelloedd Darllen Tresimwn
- Llancarfan
- Saint Hilari

Diben hyn oedd rhannu'r dysgu a wnaed gyda chymdeithasau hanes eraill. Er y diddordeb cychwynol gan grwpiau pan wnaed ymgais i drefnu cyfarfod, ni chafwyd ymateb i'r digwyddiad. Felly cafodd ei ganslo.

Ymchwil Pwnc

Addasrwydd y systemau ar gyfer chwilio drwy destun a PDF

Dymuna Cymdeithas Hanes y Bont-faen sicrhau bod ei harchif digidol ar gael ar y we i bobl chwilio ynddo. Mae'r archif yn cynnwys llawer o ffeiliau PDF a DOC/DOCX ac mae ein system bwrdd gwaith yn dibynnu ar Windows Explorer Search (a all chwilio yn y mathau o ffeiliau hyn). Er eu bod yn cofnodi rhywfaint o metadata mewn taenlen, ni ddefnyddir allweddeiriau na thagiâu, dim ond ffolderi ac isffolderi i bori'n gychwynol.

Ystyriodd grŵp Cymdeithas Hanes y Bont-faen wefannau sefydliadau tebyg a cheisiodd gymorth gan y rheiny oedd yn ateb eu dyheadau. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gwefannau a welwyd yn canolbwyntio ar ddelweddau ond nid ar eitemau sy'n seiliedig ar destun. Roedd y gallu i chwilio ffeiliau testun wedi bod yn brif ofyniad y grŵp.

Archifau ar-lein

Ymchwiliodd y grŵp i'r amrywiaeth o ddewisiadau oedd ar gael. Roedd hi'n amlwg bod y grŵp yn eithaf blaengar fel cymdeithas hanes o ran sut y cofnodir eu gwybodaeth, roedd yn anodd dod o hyd i lawer o enghreifftiau o gymdeithasau hanes eraill ar raddfa debyg gyda'r un gofynion a dyheadau technegol. Ystyriwyd amrywiaeth o ddewisiadau:

Platfform	Pris	Defnyddwyr	Addasrwydd	dolenni
Flickr	Am ddim (hyd at faint penodol o storio)	Llyfrgell Newcastle	Nid yw'n diwallu'r gofynion	https://www.flickr.com/
Casgliad y Werin	Am ddim	Cymdeithas Hanes Port Talbot	Gallai fodloni gofynion	www.casgliadywerin.cymru/
iBase	£4,950	Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf	Efallai bydd y gost yn rhwystr	http://archive.rhondda-cynon-taf.gov.uk/
Gwefannau Cymunedol	Dibynol	Chipping Camden and District	Cost a gofynion parhaus	http://www.chippingcampdenhistory.org.uk/ https://www.communitysites.co.uk/

DIGIDEIDDIO: Y FFORDD YMLAEN

Towns Web Archiving	Yn dibynnu ar faint y deunydd	Isle of Man History = Manx national heritage	Digideiddio ar gyfer gwella gwe gan gynnwys metadata	http://townswebarchiving.com
Past View	O leiaf £20,000	Herefordshire History Royal Photographic Society	Gall fodloni gofynion y defnyddwyr	www.past-view.com

Hawlfraint a diogelwch

Roedd gan y grŵp bryderon ynghylch y gallu i lawrlwytho/ailgreu o wefannau penodol a dymunodd gadw lefel o ddiogelwch dros eu cofnodion. Felly, ystyriwyd systemau oedd yn cynnig diogelwch i atal hyn rhag digwydd. Roedd gan lawer o'r systemau wedi eu datblygu a gafodd eu hystyried y lefel hon o ymarferoldeb.

Heriau'r Project

Priodoldeb y casgliadau eraill

Roedd y gymdeithas hanes ar y blaen o ran sut y cedwir data a'u huchelgais o ran sut yr oeddent yn dymuno i'r data fod yn hygyrch. Dyma agwedd wych ar gymdeithas graidd fach o wirfoddolwyr, ond roedd yn heriol dod o hyd i arfer gorau o fannau eraill a fyddai'n bodloni gofynion technegol heb fod yn rhy gostus.

Cost


Rhoi rhai o'r datrysiadau gorau ar y farchnad yn eithriadol o gostus, yn gofyn am ffioedd prynu uchel a ffioedd cynnal a chadw parhaus. Byddai'n anodd codi'r fath lefel o gyfalaf gan y grŵp a byddai ymrwymiad i ffioedd blynyddol parhaus hefyd yn anodd.

CANLYNIADAU'R PROJECT

Y Canlyniadau

Oherwydd y cymorth sydd ar gael gan Gasgliad Gwerin Cymru a chadernid y sefydliad, y ffaith bod hwn yn adnodd yn rhad ac am ddim a'r gallu i fodloni gofynion technegol y grŵp, mae hyn wedi dod yn blatfform o ddewis i'r gymdeithas hanes uwchlwytho ei ffeiliau.

Ers Hydref 2019, mae'r gymdeithas hanes wedi uwchlwytho dros 5,000 o ddogfennau i'r wefan. Eu nod yw atgynhyrchu rhan fwyaf eu casgliad o'r system Windows i Gasgliad Gwerin Cymru.



Ffigur 1: Tudalen Cymdeithas Hanes y Bont-faen ar Gasgliad Gwerin Cymru

Gwersi a Ddysgwyd gan y Project

Amrywiadau mewn gallu a chwmpas cymdeithasau hanes

Amlygodd y project pa mor amrywiol yw maint a chwmpas y cymdeithasau hanes ledled y Fro ac mewn mannau eraill. Gallai fod yn fuddiol iawn cael cymorth i arwain cymdeithasau hanes sut i gasglu a storio data.

Dichonolrwydd y system

Ystyriwyd amrywiaeth o bosibiliadau i gyflwyno archifau ar-lein ac yn ystod gydol y project, gwnaed newidiadau i rai systemau eisoes. Er enghraifft, roedd y ffordd a ddefnyddiwyd Flickr gan Newcastle fel adnodd i lanlwytho lluniau eisoes wedi newid gan y cyflwynwyd ffioedd storio gan Flickr dros faint penodol. Amlygodd hyn pa mor fregus yw rhai systemau, a all ei gwneud yn anodd i grwpiau cymunedol sy'n dymuno gwneud eu gwybodaeth yn hygyrch i'r cyhoedd ond nad oes ganddynt yr adnoddau i gomisiynu a chynnal system ar ei phen ei hun. Y gobaith yw y bydd yr adnodd cenedlaethol a gefnogir gan Gasgliad Gwerin Cymru, yn aros yn rhad ac am ddim ac yn bodloni'r holl ofynion ac yn caniatáu i unrhyw un weld, chwilio a dilyn grwpiau neu gymdeithasau sy'n ei ddefnyddio fel adnodd.

Lledaenu Gwybodaeth

Gan nad oedd llawer o gefnogaeth i gyfarfod â'r holl gymdeithasau hanes, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, bydd canlyniadau y project yn cael eu lledaenu drwy:

- Lanlwytho'r project i'r wefan
- Rhannu canlyniadau'r project ar Rwydwaith Gwledig Cymru
- E-bostio'r adroddiad hwn i gymdeithasau hanes eraill yn y Fro.

Y Camau Nesaf

Mae'r project wedi cyflawni'r canlyniadau a ganfuwyd ar gyfer dod o hyd i blatfform addas i gadw'r holl ddeunyddiau a gasglwyd gydag amser. Bydd y grŵp yn parhau i lanlwytho ei adnoddau i Gasgliad Gwerin Cymru.

EISIAU GWYBOD MWY?

Gwefan y Project

Gwefan y Gymdeithas Hanes: www.cowbridgehistorysociety.org

Casgliad Archifau Digidol: <https://www.peoplescollection.wales/users/5375>

Cysylltiadau Defnyddiol

Cymunedau Gwledig Creadigol

E-bost: create@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: www.cymunedaugwledigcreadigol.co.uk

Ffôn: 01446 704868

Cymdeithas Hanes y Bont-faen

E-bost: cowbridgehistsoc@gmail.com

Gwefan: www.cowbridgehistorysociety.org

Diolch i

Diolch i Gymdeithas Hanes y Bont-faen am y gwaith sylweddol a wnaed i ddigideiddio eu harchifau.

Diolch i waith Casgliad Gwerin Cymru wrth gefnogi Cymdeithas Hanes y Bont-faen i fodloni eu gofynion.

Ac i bawb arall a gyfranodd:

- Gwasanaeth llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf
- Cynrychiolydd Gwefannau Cymdeithasol

ATODIAD A

Gwariant terfynol y project

Disgrifiad o'r Costau (yn unol â'r Llythyr Ariannu Project)	Cyfanswm a Gymeradwywyd (yn unol â'r llythyr ariannu)	Cyfanswm y Gwariant Terfynol
Costau ymchwilio	£ 1000	£ 0
CYFANSWM Y GWARIANT	£ 1000	£ 0

